COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL A GYNHALIWYD O BELL TRWY TIMAU MICROSOFT, DYDD IAU, 30 MEHEFIN 2022, AM 09:30

Presennol

Y Cynghorydd – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| H T Bennett | F D Bletsoe | JPD Blundell | P Davies |
| J Gebbie | W R Goode | RM Granville | S J Griffiths |
| M L Hughes | M Jones | RL Penhale-Thomas | JC Spanswick |
| T Thomas | G Walter | A Williams | AJ Williams |
| HM Williams | | | |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Deborah Exton | Dirprwy Bennaeth Cyllid dros dro |
| Laura Griffiths | Rheolwr Grŵp Cyfreithiol a Gwasanaethau Democrataidd |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Meryl Lawrence | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Jessica Mclellan | Swyddog Craffu |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Zak Shell | Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |

1. ETHOL IS-GADEIRYDD

PENDERFYNWYD: Ethol y Cynghorydd Alex Williams yn Gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol am y Flwyddyn Gyngor.

2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Dim

3. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Datganodd y Cynghorydd Heidi Bennett fuddiant personol yn yr adroddiad ar Alldro Cyllideb Refeniw 2021-22 a buddiant sy'n rhagfarnu yn yr adroddiad ar yr Enwebiad i Banel Craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Datganodd y Cynghorydd Paul Davies fuddiant personol sef bod ei bartner yn gweithio i'r gwasanaeth Prydau yn y Cartref yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

4. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo Cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol dyddiedig 1 Rhagfyr 2021, 12 Ionawr 2022 a 2 Mawrth 2022 fel cofnod gwir a chywir.

5. GALW PENDERFYNIAD Y CABINET I MEWN: GWASANAETH AILGYLCHU A GWASTRAFF AR ÔL 2024

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd adroddiad gyda'r pwrpas o alluogi'r Pwyllgor i ystyried penderfyniad y Cabinet ar 14 Mehefin 2022 mewn perthynas â'r adroddiad ar y Gwasanaeth Ailgylchu a Gwastraff ar ôl 2024.

Cadarnhaodd, yn unol â Rheol 18 o Reolau Trosolwg a Chraffu yng Nghyfansoddiad y Cyngor, fod 3 Aelod o'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu, a Chadeirydd Craffu, wedi gofyn am benderfyniad Gweithredol a wnaed gan y Cabinet ar 14 Mehefin 2022 i'w alw i mewn.

Dywedodd bod y Pwyllgor wedi'i argymell i ystyried penderfyniad y Cabinet ar 14 Mehefin 22 ynghylch y Gwasanaeth Ailgylchu a Gwastraff ar ôl 2024 ac i benderfynu a oedd yn dymuno:

i) cyfeirio'r penderfyniad yn ôl i'r Cabinet i'w ailystyried, gan nodi'n ysgrifenedig natur ei bryderon; neu
ii) penderfynu peidio â chyfeirio'r mater yn ôl i'r Cabinet.

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau a oedd wedi llofnodi'r Galw i Mewn i siarad am y rhesymau dros y Galw i Mewn.

Dywedodd yr Aelodau mai'r prif resymau dros y Galw i Mewn oedd:

- Cyflwynwyd y contract tymor byr fel yr unig opsiwn heb unrhyw drafodaeth ynghylch hyfywedd opsiynau eraill megis dod â'r gwasanaeth yn fewnol fel mesur dros dro a allai o bosibl ganiatáu i'r Awdurdod Lleol deilwra'r gwasanaeth i'r hyn y gallai'r ddarpariaeth fod yn y dyfodol. . Gallai'r opsiwn hwn fod wedi bod yn rhatach ac yn llai aflonyddgar, ac eto nid oedd wedi'i ystyried gan y Cabinet.

- Nid oedd anawsterau cytundebol posibl y penderfyniad i allanoli gwasanaeth gyda'r awdurdod i brynu lleoliad gwaith presennol Kier wedi cael eu hystyried yn briodol. Pryderon ynghylch bod y contractwr yn dibynnu ar weithredu'r lleoliad gwaith y byddai'r Awdurdod yn berchen arno ac ymholiadau ynghylch pwy fyddai'n atebol am unrhyw fethiannau, o ystyried ei oedran.

- Rhesymeg prynu hen leoliad a hen gerbydau yn hytrach na pheiriannau amgen mwy newydd neu osod nwyddau ar gontract allanol, a phrydlesu cerbydau ynni effeithlon, allyriadau isel neu hyd yn oed cerbydau trydan newydd sbon.

- Y gost refeniw ychwanegol o £75,000 y flwyddyn ar gyfer yr Olew Llysiau Hydrogenedig (HVO). Cydnabuwyd yr angen i leihau allyriadau carbon ond nid oedd yn glir o'r Papur ai cyfran y Cyngor oedd y £75,000 neu ai dyna'r cyfanswm y byddai'r Cyngor yn talu hanner ohono.

- Nid oedd unrhyw sôn am gost yn yr adroddiad i'r Cabinet, ac eithrio'r HVO, ac felly nid oedd cost yr ymarfer caffael yn hysbys. Pethau anhysbys eraill oedd amcangyfrif o gost y contract dros y ddwy flynedd, a allai'r contract fod â chymal i'w ymestyn y tu hwnt i 2026 neu'r elw y byddai disgwyl i'r contractwr ei wneud.

- Roedd y contract diwethaf a ddyfarnwyd i Kier ar gyfer casglu yn cynnwys gwallau megis dim darpariaeth ar gyfer casglu gwastraff glanweithiol a arweiniodd at gynllun retro gyda bagiau porffor yn cael eu rhoi ar waith a oedd yn achosi problemau i drigolion. Nid oedd unrhyw ddarpariaeth yn y contract ar gyfer glanhau biniau gwastraff bwyd mewn ardaloedd cymunedol a oedd yn golygu nad oedd biniau

gwastraff y preswylwyr wedi'u glanhau mewn tair blynedd ac nid oedd unrhyw randdeiliad i'w glanhau. Roedd angen i'r Pwyllgor Craffu sicrhau mewnbwn yr holl Aelodau i weithredu fel Cyfaill Beirniadol.

Yr Aelod Cabinet dros Gymunedau:

- Croesawyd cwestiynau a'r broses graffu. Eglurodd mai'r unig benderfyniad a wnaed oedd ceisio tendrau ar gyfer y contract dwy flynedd interim. Nid oedd unrhyw benderfyniad wedi'i wneud ar sut y gallai'r contract edrych yn y dyfodol, boed hynny'n fewnol neu'n gwmni hyd braich ond bod yr opsiynau hynny wedi'u cynnwys yn y Papur. Ailadroddodd mai dechrau'r broses ydoedd ac nid *fait accompli*.

- Mewn perthynas â'r gwrthwynebiad nad oedd unrhyw opsiynau eraill wedi'u hystyried, dywedodd fod yr holl opsiynau wedi'u trafod cyn penderfyniad y Cabinet. Roedd amryw o resymau pam mai contract tymor byr dwy flynedd oedd yr opsiwn cyflymaf, hawsaf a rhataf a'r cyngor proffesiynol oedd mai dyma'r opsiwn gwerth gorau. Cyfeiriodd at y cyfnod ansicr a bod targedau Llywodraeth Cymru ar gasgliadau a methodoleg ar ôl 2026 yn anhysbys.

- Mewn perthynas â cherbydau, dywedodd fod y rhai presennol yn dal â pheth bywyd ar ôl ynddynt a'u bod yn gerbydau pwrpasol. Roedd yn cydnabod y gallai'r cerbyd pwrpasol newid ar ôl 2026 yn dibynnu ar y math o gasgliad neu wasanaeth ar yr adeg honno. Felly, y cynnig oedd i bethau aros yr un fath ar gyfer 2024 i 2026 gyda mân newidiadau yn bosibl ar gyfer ardaloedd fel y Felin Wyllt gyda chasgliadau cymunedol a gyda thrafodaethau ar werth y cerbydau. Parhaodd gan ddweud byddai'r newid a'r her wirioneddol ar ôl 2026.

- Mewn perthynas â'r pryder nad oedd unrhyw ddadansoddiad cost a budd wedi'i wneud, dywedodd ei fod yn cael ei gynnal fel rhan o'r broses dendro. Dywedodd fod yn rhaid ceisio tendrau i weld beth oedd ar gael tra, ochr yn ochr, ystyriwyd opsiynau eraill gan gynnwys yr hyn y gellid ei wneud i ddod â'r gwasanaeth yn fewnol. Dywedodd fod adnoddau'n denau iawn yn y Gyfarwyddiaeth Cymunedau ac felly, mae'n debygol y byddai angen dod ag adnoddau i mewn i gynorthwyo gyda'r gwasanaeth ac ystyried yr holl opsiynau.

- Mewn perthynas â chostau caffael, nododd fod y cronfeydd wrth gefn o £300,000 wedi'i glustnodi ar gyfer caffael contract y dyfodol. Fodd bynnag, mae'n debygol mai dim ond canran fechan ohono fyddai'n cael ei wario gan fod caffael yn cael ei wneud yn fewnol ar hyn o bryd.

- Er y byddai ychydig bach o arian yn cael ei wario ar hyn o bryd, roedd yn cydnabod y byddai angen symiau mwy yn y dyfodol naill ai i gaffael contract newydd neu i gefnogi'r gwaith sydd angen ei wneud i edrych ar atebion mewnol, naill ai'n uniongyrchol neu trwy gwmni hyd braich.

- Mewn perthynas â'r HVO, eglurodd fod y £75,000 ychwanegol i'w rannu'n gyfartal rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a'r contractwr. Cydnabu ei fod yn benderfyniad ynghylch a oedd hynny'n werth am arian ac y gallai fod opsiynau eraill. Fodd bynnag, dim ond saith mlynedd oedd i gyrraedd sero-garbon net gyda bron i 30,000 tunnell o garbon i'w arbed eto i gyrraedd y sefyllfa honno.

Yr Aelod Cabinet dros Adnoddau:

- Ategwyd mai pwrpas yr adroddiad oedd ymarfer casglu gwybodaeth gan fod angen tystiolaeth dda a chadarn i seilio penderfyniadau arni. Dywedodd mai dim ond drwy brofi'r farchnad y gellid gwneud hynny i weld pa ddiddordeb a dderbyniwyd mewn

casglu gwastraff am y cyfnod o ddwy flynedd rhwng 2024 a 2026. Roedd y rhesymau dros yr estyniad byr, hy dim targedau ailgylchu Llywodraeth Cymru yn y dyfodol, cyfrifoldeb cynhyrchwyr, cynlluniau dychwelyd blaendal a mathau o gerbydau, a oedd wedi bod yn destun Pwyllgor Craffu ym mis Gorffennaf 2021 yn parhau i fod yn ddilys oherwydd ansicrwydd ar ôl 2026 ynghylch a pha olwg a fyddai ar y casgliad.

- Cydnabu y gallai unrhyw benderfyniadau a chontractau caffael gael eu herio ac felly rhybuddiodd yr angen i gadw'n unol â chyfraith caffael. Dywedodd hefyd fod angen i Lywodraeth Cymru roi eglurder ynghylch yr ansicrwydd ynghylch yr hyn y disgwylir iddo gael ei gasglu i lunio’r contract yn y dyfodol.

Y Prif Weithredwr

- Eglurodd bod y penderfyniad a wnaed yn flaenorol yn fwriad i ymestyn y contract gyda *Kier* am ddwy flynedd, a oedd wedi bod yn opsiwn yn y contract presennol, yn enwedig o ystyried yr ansicrwydd ynghylch targedau ailgylchu Llywodraeth Cymru, yr angen i symud tuag at gerbydau llai dibynnol ar diesel a chyfrifoldebau cynhyrchwyr. Daeth i’r amlwg yn 2021 bod *Kier* yn symud allan o’r farchnad a bod amserlenni wedi pennu bod yr opsiynau’n fwy cyfyngedig.

- Dywedodd nad oedd y Cyngor yn gallu pennu sut beth fyddai contract hirdymor yn y dyfodol a fyddai'n gofyn am ymgynghoriad cyhoeddus a phroses hir a chymhleth. Felly, roedd yr adroddiad a baratowyd yn seiliedig ar gaffael contract tymor byr. Roedd posibilrwydd y gellid dod â'r gwasanaeth yn fewnol, er y byddai'n dal i ddefnyddio'r un cerbydau a'r un fethodoleg am y cyfnod hwnnw o ddwy flynedd. Yr hyn oedd yn cael ei drafod oedd cyfnod interim yn unig.

- Mewn perthynas ag ôl 2026, cytunodd fod angen llawer o waith i ddeall beth fyddai ei angen i gynyddu targedau ailgylchu. Pwysleisiodd fod Pen-y-bont ar Ogwr yn parhau i fod yn un o’r awdurdodau sy’n perfformio orau yng Nghymru o ran ailgylchu ac o ran cost a chasgliadau a fethwyd.

- Eglurodd bod y cerbydau a ddefnyddiwyd yn bwrpasol i fodloni'r fethodoleg ac na ellid eu prynu na'u prydlesu oddi ar y silff. Roedd angen eu dylunio a'u caffael, ac nid oedd hynny'n gost-effeithlon ar gyfer cerbydau newydd, am gyfnod o ddwy flynedd, pan allai'r fethodoleg newid ymhen ychydig flynyddoedd. Y cyngor oedd bod gan y cerbydau presennol ddigon o fywyd ar ôl ynddynt. Roeddent wedi'u cyflwyno fesul cam gydag oedran y cerbydau tua chwech neu saith mlwydd oed. Felly, roedd yn synhwyrol defnyddio'r peiriannau a'r offer presennol.

- Mewn perthynas â chost tanwydd HVO a'r rhagolygon ar gyfer dewisiadau eraill, dywedodd fod yn rhaid gweithredu a thynnodd sylw at y cyngor o ran lleihau carbon oedd bod hon yn gost isel iawn o ran y canlyniad lleihau carbon o gymharu â rhai o’r penderfyniadau anoddach eraill y gallai fod angen eu gwneud dros y pum mlynedd nesaf, os yw’r awdurdod i gyrraedd y targedau lleihau carbon erbyn 2030.

- Nid oedd yn teimlo bod yr adroddiad yn dioddef o ran manylion ac opsiynau. Roedd yn cydnabod bod yr adroddiad wedi'i gynllunio fel Summary ac nad oedd unrhyw ddiffyg manylion wedi bod yn fwriadol i atal gwybodaeth rhag cael ei datgelu. Amlygodd fod yr adroddiad yn dod ag argymhellion gerbron y Cabinet yn seiliedig ar wybodaeth a chyngor proffesiynol. Ailadroddodd fod opsiynau eraill wedi'u hystyried a chafodd y pwyllgor eu hatgoffa o adroddiad i'r Pwyllgor Craffu ym mis Gorffennaf 2021 lle'r ymdriniwyd â rhai o'r opsiynau eraill yn fanwl.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar mai rôl y Cyngor oedd symud busnes yn ei flaen. Amlygodd baragraff 9.5 o'r adroddiad gwreiddiol a dywedodd fod y Cabinet wedi awdurdodi Swyddogion i ddod ag argymhelliad yn ôl yn y dyfodol ar sut y byddai'r gwasanaeth yn cael ei redeg. Cododd hefyd fater y cynnydd yng nghostau gyrwyr a oedd yn oblygiad pellach i'w ystyried.

Gwahoddodd y Cadeirydd unrhyw Aelod o'r Pwyllgor a oedd wedi Galw i Mewn y penderfyniad i ofyn cwestiynau neu roi sylwadau.

Amlygodd yr Aelodau mai'r rhesymeg y tu ôl i'r Galw i Mewn oedd yr angen am eglurder i'r cyhoedd ar sut yr oedd arian yn cael ei wario er eu budd hwy. Er ei bod yn bosibl bod penderfyniadau wedi'u gwneud yn y cefndir, roedd angen egluro'r rhain yn gyhoeddus.

Nododd yr aelodau mai dim ond yng nghyfarfod y Pwyllgor ac o ganlyniad i'r Galw i Mewn y gwyddys beth oedd cost caffael, sef hyd at £300,000.
Gofynnodd yr aelodau beth fyddai amcangyfrif o gost y contract a faint o elw y disgwylid i gontractwr ei wneud. Yn ogystal, pa fath o gontractwr fyddai'n ei gymryd ar gontract dwy flynedd a beth fyddai'n digwydd pe na bai neb yn dod ymlaen i gyflenwi'r contract.

Eglurodd yr Aelod Cabinet dros Gymunedau fod £300,000 o gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi ar gyfer y broses dendro caffael yn y dyfodol ac nad oedd yn swm a fyddai'n cael ei wario ar y broses bresennol sy'n cael ei wneud yn fewnol.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod y gronfa wrth gefn a glustnodwyd yn seiliedig ar y ffaith nad oedd yn hysbys pa opsiwn fyddai'n cael ei gymryd. Yr opsiwn o gontract tymor byr dwy flynedd oedd y rhataf o ran caffael oherwydd bod y contract eisoes wedi'i ysgrifennu ac yn cael ei ddefnyddio gan staff caffael mewnol a chyfreithiol. Pan ddefnyddiwyd adnoddau mewnol, nid oedd hyn fel arfer yn cael ei nodi mewn adroddiad Cabinet. Pe bai'n cael ei benderfynu yn y dyfodol, er enghraifft, y byddai'r gwasanaeth yn cael ei gyflwyno'n fewnol, yna byddai'r gost caffael yn llawer uwch. Byddai hyd at 70 o ffrydiau gwastraff yn hytrach na'i wneud drwy gwmnïau a oedd eisoes â'r mathau hynny o gaffaeliadau ar waith. Eglurodd felly, nad oedd £300,000 yn cael ei wario ar gaffael y contract interim a fyddai'n gost fechan yn seiliedig ar y contract a'r fethodoleg bresennol.

Mewn perthynas â phwy fyddai'n debygol o weithredu'r contract interim, dywedodd fod profion marchnad meddal wedi awgrymu bod rhywfaint o ddiddordeb. Roedd yn cydnabod y byddai rhywfaint o elw gan eu bod yn gwmnïau masnachol. Amlygodd fod cost yr holl gontractau cludiant presennol wedi cynyddu'n sylweddol ac felly rhagwelwyd y byddai'r gost yn uwch beth bynnag fo'r fethodoleg. Fodd bynnag, pwrpas mynd i'r farchnad ac edrych ar y dewisiadau eraill oedd penderfynu ai'r costau oedd y gwerth gorau am arian.

Holodd yr aelodau a oedd y posibilrwydd o ddod â'r gwasanaeth yn fewnol o 2024 ymlaen wedi'i ystyried ac a allai fod yn bosibilrwydd o hyd.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y gallai fod yn opsiwn ond nad oedd yn hysbys. Dywedodd ei bod yn synhwyrol comisiynu cefnogaeth ar gyfer dichonoldeb i benderfynu a fyddai'n realistig ac ymarferol. Yn y tymor hwy, o 2026, roedd dod â'r gwasanaeth yn fewnol yn opsiwn a fyddai'n cael ei ystyried yn llawn. Fodd bynnag, teimlai fod y tendr ar gyfer y contract dwy flynedd interim yn bwysig er mwyn osgoi sefyllfa lle nad oedd unrhyw ddarpariaeth a dim gwasanaeth. Nid oedd yr Awdurdod wedi cael gwasanaeth mewnol ers 2003 ac o ganlyniad, nid oedd ganddo y seilwaith na'r staffio mwyach. Byddai angen rhoi ystyriaeth ofalus i'r rhaglen waith a'r buddsoddiad y byddai ei angen i ddod ag ef yn ôl yn fewnol. Ailadroddodd mai'r argymhelliad i'r Cabinet oedd mynd allan

am gaffaeliad am gontract dwy flynedd neu fentro bod y contract yn dod i ben a bod mewn argyfwng.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Gymunedau fod yr amserlen yn fyr iawn. Dangosodd ymchwil gan awdurdodau eraill fod y broses i ddod â'r gwasanaeth yn ôl yn fewnol wedi cymryd o leiaf dwy flynedd. Tynnodd sylw at y 76 o wahanol ffrydiau gwastraff a'r adnoddau a'r amserlen gyfyngedig iawn a fyddai'n ei gwneud bron yn amhosibl eu cyflawni yn y llai na dwy flynedd sy'n weddill.

Dywedodd y Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol fod adroddiad wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu ym mis Gorffennaf 2021 a oedd yn archwilio'r estyniad dwy flynedd arfaethedig ar y pryd gyda Kier a bod cwestiynau wedi'u gofyn ynghylch dod â'r gwasanaeth yn fewnol. Roeddent wedi ymrwymo i ddod â'r mater yn ôl i'r Pwyllgor Craffu i archwilio'r holl opsiynau yn llawn ond nid am gyfnod uniongyrchol y ddwy flynedd.

Parhaodd i ddweud y byddai'n benderfyniad mawr ac yn ddarn mawr o waith i ddod â'r gwasanaeth yn fewnol ac y byddai ar gwantwm hollol wahanol i'w gymharu â chaffael. Amlygodd ei bod yn synhwyrol defnyddio'r cerbydau presennol yn enwedig o ystyried yr ansicrwydd presennol.

Nododd yr Aelodau fod y contract yn y dyfodol wedi bod yn destun Craffu yn 2021 a fyddai wedi rhoi tair blynedd i edrych ar y potensial o ddod â'r gwasanaeth yn fewnol. Nodwyd hefyd bod Swyddogion wedi tynnu sylw at y diffyg staff ar gyfer caffael a holwyd a oedd y Pwyllgor yn cael gwybod bod cost caffael yn fach iawn gan ei fod yn digwydd yn fewnol.

Eglurodd y Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol fod dwy agwedd ar wahân. Un oedd y caffael ar gyfer yr estyniad - ymarfer caffael sengl gyda staff yn eu lle i'w gynnal. Roedd y dewis arall yn golygu dod â 76 o ffrydiau cyflenwi unigol yn fewnol a chadarnhaodd nad oedd ganddo y staff ar gyfer hynny.

Holodd yr Aelodau pa un ai oedd modd cyflawni’r swm o waith sydd ei angen i ddod â’r gwasanaeth yn fewnol ymhen pedair blynedd heb dîm yn ei le yn realistig ai pheidio, ac a oedd y gost o brynu’r fflyd yn ôl yn hysbys gan fod y Cabinet wedi rhoi awdurdod i Swyddogion wneud y penderfyniadau hynny.

Eglurodd yr Aelod Cabinet dros Gymunedau fod gwahaniaeth rhwng 2024 a 2026 a bod opsiwn realistig i ddod â’r gwasanaeth yn ôl yn fewnol ar ôl 2026.

Cadarnhaodd y Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol nad oedd union gost prynu'r fflyd yn hysbys ond cadarnhaodd fod y contract a oedd yn darparu'r opsiwn i brynu'n ôl yn cynnwys rhai costau dangosol. Roedd yn debygol y byddai proffil fflyd amrywiol ond bod arwydd o gost y cerbyd fesul math o gerbyd.

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch oedran y fflyd, cadarnhaodd y byddai'r cerbydau tua chwech i chwech mlwydd a hanner ar ddiwedd y contract. Cadarnhaodd fod rhai contractwyr casglu gwastraff yn rhedeg y cerbydau am hyd at 10 mlynedd er nad oedd yn argymell gwneud hynny gan y byddai'r gost o gynnal a chadw cerbydau hŷn yn uwch ac yn peri risg o broblemau gyda dibynadwyedd. Dywedodd ei fod yn gyfforddus yn rhedeg cerbydau am tua wyth mlynedd a hanner fel disgwyliad rhesymol. Nid oedd y cerbydau'n gwneud llawer o filltiroedd ond efallai mai rhai o'r problemau a ragwelwyd fyddai angen newid byrddau defnyddwyr, breciau a chydwyr fel mater o drefn ond nad oeddent yn arbennig o ddrud. Yn ogystal, roedd yna bosibilrwydd o rai materion gerbocs ond, cadarnhaodd y gallent fynd yn gyfforddus am ychydig flynyddoedd yn fwy ac y byddai'n gwneud synnwyr economaidd da ar ffracsiwn o'r gost o brynu'n newydd.

Parhaodd gan ddweud bod y farchnad cerbydau allyriadau isel iawn yn datblygu ac roedd prynu cerbydau casglu gwastraff allyriadau isel iawn bron ddwywaith cost yr hyn oedd yn cyfateb i gerbydau diesel. Dywedodd fod rhai cerbydau hydrogen yn cyrraedd y DU ac er bod cerbydau trydan ychydig yn fwy cyffredin, roeddent yn tueddu i weithio'n dda mewn ardaloedd casglu yng nghanol y ddinas ond y byddai problemau gyda'r pellter sydd ei angen i deithio i ardaloedd y cymoedd ac i fynd i Abertawe ar gyfer tipio gwastraff. Felly, roedd angen amser ar y farchnad i ddatblygu a theimlwyd mai'r ffordd fwyaf synhwyrol o brynu amser oedd defnyddio'r cerbydau presennol.

Dywedodd y Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol er bod modd llogi cerbydau sbwriel, roedd y cerbydau ailgylchu yn rhai pwrpasol ac nid oeddent ar gael oddi ar y silff. Roedd cyfluniad yr adrannau yn cyd-fynd â'r tunelleddau a'r deunyddiau a gynhyrchwyd gan Ben-y-bont ar Ogwr.

Mewn perthynas â chost tanwydd, eglurodd mai £75,000 oedd y cyfanswm ac y byddent yn edrych i drafod i rannu'r gost honno gyda Kier. Cyfeiriodd at gynlluniau lleihau carbon eraill a wnaed yn y gorffennol a dywedodd, am tua £30,000, bod bron i 1,000 tunnell o ostyngiad mewn carbon yn ymddangos yn werth da ac y byddai gostyngiad yn diogelu'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mewn perthynas â'r tanwydd sy'n deillio o lysiau hydrogenedig, dywedodd ei fod yn ddeunydd glanach a'i fod yn llosgi llai o ocsidau nitraidd na thanwydd diesel. Dywedodd ei bod yn hysbys bod ocsidau nitraidd yn achosi i bobl ddatblygu problemau a chlefydau anadlol. Roedd y budd amgylcheddol yn drech na'r swm cymharol fach o arian y bwriedir ei wario.

Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd y Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol y byddai'r contractwr newydd yn rhedeg ac yn cynnal a chadw'r cerbydau ac yn eu gweithredu dan eu trwydded eu hunain.

Mewn perthynas â beth oedd y gost ar gyfer trosglwyddo staff Kier yn 2024 gyda'r potensial i wneud hynny eto yn 2026, dywedodd y Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol er y gallai fod yn deg gofyn beth fyddai cost caffael, byddai trosglwyddo staff yn digwydd rhwng y contractwr presennol a'r contractwr newydd felly ni fyddai cost uniongyrchol yn weladwy. Dywedodd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar nad oedd unrhyw gost i drosglwyddo TUPE. Byddai gweithiwr yn trosglwyddo o fod yn gyflogai o un sefydliad i fod yn un o'r llall.

Gwahoddodd y Cadeirydd unrhyw Aelodau eraill o'r Pwyllgor a oedd wedi llofnodi'r Galw i Mewn i siarad ag yna gwahoddodd unrhyw Aelodau eraill o'r Pwyllgor i ofyn eu cwestiynau.

Nododd yr aelodau fod contractau rheoli gwastraff yn ymddangos yn llai proffidiol i'r sector masnachol a gofynnwyd am sicrwydd o gynllun wrth gefn i sicrhau hirhoedledd gwasanaeth pe bai contractwr tymor byr yn rhoi'r gorau i wasanaeth.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod Kier wedi bod yn gyhoeddus ynghylch gadael y farchnad ond cadarnhaodd eu bod wedi ymrwymo dan gontract i ddarparu'r gwasanaeth tan 2024 ac nad oedd unrhyw arwydd eu bod yn peidio bwriadu gwneud hynny. Y rheswm dros gaffael y contract tymor byr oedd er mwyn sicrhau bod dewis arall ar waith yn 2024. Dywedodd fod darpariaethau y gallai awdurdodau lleol eu gwneud mewn sefyllfaoedd o argyfwng, lle nad oedd, er enghraifft, unrhyw fodd o ddarparu'r gwasanaeth drwy'r drefn arferol.

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch a oedd strategaeth risg ffurfiol ar gyfer y penderfyniad i gaffael contract tymor byr am y cyfnod o ddwy flynedd, cadarnhaodd y

Prif Weithredwr fod yr asesiad risg wedi bod yn rhan o wneud yr argymhelliad i'r Cabinet. Un o'r risgiau oedd y cynnydd mewn costau, yn debyg i gontractau eraill yn ymwneud â cherbydau. Risg bosibl arall oedd na fyddai neb yn cynnig am y contract ond amlygodd y bu profion marchnad meddal. Yr arwydd oedd bod diddordeb mewn darparu'r gwasanaeth gan y byddai'n gymharol syml, gan ddefnyddio'r un cerbydau a methodoleg. Yn dilyn yr asesiad risg, roedd mynd ar drywydd contract tymor byr yn cael ei weld fel y dewis lleiaf o risg o'i gymharu â rhuthro model mewnol a oedd yn cael ei ystyried yn fwy o risg.

Gofynnodd yr Aelodau am sicrwydd y byddai ymgynghoriad cyhoeddus yn cynnwys amrywiaeth o fesurau.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr nad oedd angen ymgynghori â'r cyhoedd lle cedwid y fethodoleg i raddau helaeth yr un fath. Fodd bynnag, pe bai'r gwasanaeth yn symud yn fewnol neu os byddai'r targedau gan Lywodraeth Cymru yn golygu y byddai'n rhaid newid y fethodoleg er mwyn darparu ar gyfer hynny, byddai angen ymgynghoriad, creu cysylltiadau a chasglu gwybodaeth gyhoeddus gynhwysfawr.

Dywedodd y Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol, pan oedd y gwasanaeth yn cael ei newid yn flaenorol, bod llawer o ymgynghori wedi bod gydag amrywiaeth o ymarferion ymgysylltu a sicrhaodd y byddai hyn yr un peth pe bai'r gwasanaeth yn newid.

Mynegodd yr aelodau bryderon ynghylch yr amserlen, cost a gwerth am arian a, gyda chostau byw cynyddol, holwyd a fyddai'n synhwyrol archwilio opsiynau eraill ochr yn ochr â phrofi'r farchnad i gael gwerth am arian yn y pen draw.

Amlygodd y Prif Weithredwr y cyfnod cyfyngedig o amser hyd at 2024 a bod yr opsiynau yn gymharol gyfyngedig; naill ai i gaffael contractwr allanol i ddarparu’r gwasanaeth neu, gyda digon o amser, o bosibl yn dod ag ef yn fewnol ond nid oes unrhyw staff na seilwaith i redeg y gwasanaeth yn fewnol wedi bod mewn lle ers 2003. Roedd yn debygol y byddai contractwyr yn dod i mewn gyda chostau uwch oherwydd natur y farchnad lle'r oedd cerbydau a thanwydd ynghlwm. Teimlwyd mai'r caffaeliad oedd yr opsiwn hawsaf, lleiaf costus a lleiaf peryglus. Y farchnad fyddai'n pennu'r gost ac yna byddai angen asesu a oedd yn werth am arian tra, ochr yn ochr ag ystyried yr opsiwn o ddod â'r arian yn fewnol.

Dywedodd y Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol fod y farchnad wastraff fel arfer wedi bod yn farchnad hynod gystadleuol. Er ei bod yn debygol y byddai cynnydd mewn costau, oherwydd prinder gyrwyr a phrisiau tanwydd, roedd mynd allan i dendr fel arfer yn dod â gwerth gorau. Cyfeiriodd at y sefyllfa yn y diwydiant adeiladu o fod yn wahanol a'u prisiau'n cynyddu amryfal ond gan fod mwy o alw nag y gellir ei gyflawni, nid yw'r farchnad yn gystadleuol sy'n effeithio ar y gost. Yn y sector gwastraff, roedd nifer y cyflenwyr a'r contractwyr wedi bod yn eithaf cyson. Felly, er ei bod yn debygol y byddai codiadau cost materol sylfaenol yn achosi i holl gostau'r cynigwyr gynyddu, nid oedd yn pryderu na fyddai cystadleurwydd i gyflawni gwerth gorau yn cael ei effeithio.

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch cynaliadwyedd ac argaeledd HVO, cadarnhaodd y Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol mai HVO oedd y cam nesaf o danwydd sy'n deillio o lysiau. Cyfeiriodd at fersiynau blaenorol tebyg lle'r oedd cerbydau'n defnyddio braster sglodion a oedd yn troi'n fath o diesel. Dywedodd fod technoleg a gwyddoniaeth wedi datblygu a bod y broses bellach wedi'i mireinio gyda thanwydd llawer uwch.

Mewn perthynas â'r cyflenwad, cadarnhaodd nad oedd yr union darddiad yn hysbys ac y byddai'n destun trafodaeth gyda *Kier*. Dywedodd ei bod yn ymddangos bod cyflenwad digonol a helaeth o HVO ond tynnodd sylw at y ffaith mai cam interim oedd HVO a fyddai'n darparu budd mawr ar gyfer buddsoddiad cymharol fach. Byddai'n lleihau carbon drwy roi'r gorau i losgi tanwydd ffosil ac yn ychwanegu at y problemau sy'n gysylltiedig ag ocsid nitraidd ond cadarnhaodd na fyddai'r awdurdod yn ymrwymo iddo pe na bai cyflenwad digonol.

Cadarnhaodd  Aelod Cabinet dros Les a Chenedlaethau'r Dyfodol ei fod wedi gofyn i Swyddogion geisio caffael HVO drwy'r opsiwn mwyaf cynaliadwy, megis o gnwd gwastraff, i geisio cyflawni cymaint o effaith ar yr economïau ac arbediad ar garbon.

Mynegodd yr aelodau bryderon bod risg cost y cynnig caffael dwy flynedd yn cael ei danamcangyfrif gan gyfeirio at yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn 2017, a edrychodd ar faint o amser a gymerodd i gwmnïau gwastraff adennill costau fel rhan o gaffael a ddaeth i'r casgliad ei fod yn isafswm o bum mlynedd. Er y gallai cwmnïau fod yn fodlon cynnig am y contract dwy flynedd, gallent godi eu costau, a oedd fel arfer yn cael eu lledaenu dros bum mlynedd i ddwy flynedd, a thrwy hynny gynyddu eu cynigion ar gost afresymol i'r Cyngor. Felly anogodd yr Aelodau gynllun wrth gefn cadarn i liniaru yn erbyn y risg gymharol uchel o fod mewn sefyllfa lle nad oedd ateb cost-effeithiol ar gael.

Cydnabu'r Prif Weithredwr fod cwmnïau fel arfer yn gwneud elw ar ôl pum mlynedd a dyna pam fod contractau gwastraff fel arfer am saith mlynedd. Fodd bynnag, yr hyn a sefydlwyd drwy brofion marchnad feddal oedd bod y contract a gafodd ei gynnig yn un gweddol syml i gwmnïau sydd eisoes yn y farchnad ei ddarparu gan ei fod yn defnyddio'r un fethodoleg, yr un cerbydau a throsglwyddo'r staff a oedd eisoes yn ei ddarparu. . Credai y byddai cystadleuaeth gan na fyddai angen i gwmnïau gymryd golwg hirdymor na buddsoddi symiau mawr i wneud elw yn y tymor dwy flynedd.

Mewn ymateb i'r ymholiad ynglŷn â'r cynllun wrth gefn, cadarnhaodd unwaith y byddai unrhyw gontract yn cael ei allanoli, bod risgiau'n codi ond bod risg drwy allanoli i ddarparwr allanol neu, yn yr un modd, risg drwy ddod â'r gwasanaeth yn fewnol. Nid oedd yn credu bod trydydd opsiwn nad oedd yn cario lefel o risg a chadarnhaodd felly bod angen rheoli'r risg yn y modd mwyaf effeithiol.

Mewn perthynas â'r ffaith nad oedd modd lledaenu'r costau sefydlu dros nifer o flynyddoedd a bod y gost yn sylweddol uwch, dywedodd y Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol fod y costau sefydlu mawr fel arfer yn fuddsoddiad cyfalaf mawr mewn cerbydau sy'n gysylltiedig â'r contract a cynllunio llwybr. Eglurodd y byddai'r contractwr yn cael 99% o'r fflyd sydd ei angen ac y byddai disgwyl iddo ddefnyddio'r un tua 200 o lwybrau a sefydlwyd eisoes. Felly, er bod costau wedi codi, ni fyddai'n rhaid i'r contractwyr wneud y buddsoddiad ymlaen llaw y byddai'n rhaid ei dalu yn ol fel arfer.

Holodd yr Aelodau, gan fod *Kier* yn gadael y farchnad, a oedd yn bosibl iddynt adnewyddu eu contractau presennol i'r awdurdod fel rhan o'r trosglwyddiad ac i'r awdurdod barhau gyda bron yr un gwasanaeth ag yr oedd *Kier* yn ei gynnig.

Ailadroddodd y Prif Weithredwr fod yna gyfuniad o wahanol gaffaeliadau, rhai yn ffrydiau gwastraff, rhai meddalwedd a rhai llwybrau. Fodd bynnag, ochr yn ochr â'r caffael, roedd elfen o ddichonoldeb i'w wneud i symud ymlaen, er enghraifft, yr opsiwn mewnol yn achos y caffaeliad yn aflwyddiannus neu'n annerbyniol ond hefyd wrth baratoi ar gyfer 2026. Efallai bod y ddadl newyddiad yn addas ar gyfer rhai cytundebau ond, roedd yn amau ei bod i bob un.

Cynigiodd yr aelodau ei bod yn werth edrych ar y farchnad fel rhan o'r cynlluniau wrth gefn o ystyried y risg o naill ai gynnig uchel neu ddim cynnig.

Holodd yr Aelodau ynghylch y posibilrwydd y gallai'r gwasanaeth ddirywio ac a fyddai'r contract yn amlinellu safonau clir y mae angen eu bodloni ac, os na chânt eu bodloni, a oedd posibilrwydd y byddai cosbau neu sancsiynau'n cael eu defnyddio os nad oedd ansawdd y gwasanaeth yn cael ei gynnal.

Cadarnhaodd y Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol y byddai hyn yn cael ei gynnwys yn y contract.

Cyfeiriodd yr Aelodau at adroddiad ar yr opsiynau a risgiau o symud ymlaen gyda'r contract newydd ar ôl 2024, a aeth i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 3 yn 2021 a holwyd pa argymhellion a wnaed a sut yr oeddent wedi'u hymgorffori yn adroddiad y Cabinet. Ymhellach, roedd yr adroddiad yn nodi bod y Bwrdd Rheoli Corfforaethol (CMB) wedi ystyried yr hyn a allai fod yn gyraeddadwy a bod ei gyflenwi o fewn yr amserlen a bod y rheini wedi bod yn drafodaethau mewnol gydag un opsiwn a ffefrir wedi'i gyflwyno i'r Cabinet. Gofynnodd yr Aelodau a ellid rhoi'r holl opsiynau i'r cyhoedd a'u rhoi i'r Pwyllgor eu hystyried. Gofynasant hefyd a oedd yr Aelod Cabinet yn fodlon y byddai proses dendro gystadleuol yn y cyfnod byr o amser sydd ar gael neu a oedd risg o orfod derbyn y tendr uchaf oherwydd mai dyma'r unig opsiwn i ddarparu gwasanaeth gwastraff.

Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet dros Gymunedau at baragraff 3.5 o adroddiad y Cabinet a oedd, meddai, yn crynhoi'r sefyllfa bresennol; y byddai *'cyfnod y contract interim tymor byr yn caniatáu amser i ddatblygu'r model casglu gwastraff cymhleth yn y dyfodol ar ôl 2026, gan gynnwys penderfyniadau allweddol ynghylch sut y darperir y gwasanaeth, ar adeg pan fyddai llai o ansicrwydd. Byddai hyn yn sicrhau bod y gwasanaeth mwyaf cost-effeithiol a thechnoleg arloesol yn cael eu defnyddio, sy'n hollbwysig os yw'r Cyngor am gyflawni ei uchelgais o fod y gwasanaeth ailgylchu a gwastraff gorau yng Nghymru. Bydd y Cyngor yn gweithio ar y contract interim ac yn defnyddio'r amser hwn ar yr un pryd i edrych ar yr holl opsiynau darparu gwasanaeth sydd ar gael, gan gynnwys trefniant cytundebol newydd neu ddod â'r gwasanaeth yn ôl yn fewnol, o bosibl trwy drefniant hyd braich.'* Ailadroddodd nad oedd y penderfyniad wedi'i wneud eto a chroesawodd fwy o drafod a chraffu yn y dyfodol.

Eglurodd fod yr holl opsiynau yn cael eu hystyried ar hyn o bryd ac na fyddent yn aros tan 2024. Dywedodd pe byddai cynigion anghystadleuol neu gynigion eithafol yn 2024, efallai y byddai angen cyflymu'r broses o ddod â'r gwasanaeth yn ôl yn fewnol gan y byddai'r prisiau ar gael bryd hynny. Ailadroddodd fod yna waith arall yn digwydd ochr yn ochr i sicrhau bod mwy nag un opsiwn ar gael.

Dywedodd y Prif Weithredwr, ar adeg y Pwyllgor Craffu yn 2021, mai'r opsiwn clir a ffefrir oedd estyniad dwy flynedd i gontract presennol Kier. Aeth y papur i CMB ym mis Rhagfyr pan ddaeth yn amlwg bod Kier yn symud allan i'r farchnad ac felly roedd amserlen gyfyngedig i ystyried opsiynau eraill. Cadarnhaodd y gellid rhannu fersiwn o'r hyn a gyflwynwyd bryd hynny ond cadarnhaodd mai dim ond dau opsiwn oedd mewn gwirionedd; caffael rhywun ar wahân am y tymor o ddwy flynedd neu, ochr yn ochr, ceisio dod ag ef yn fewnol ond gyda'r holl gafeatau a eglurwyd eisoes.

Cadarnhaodd yr Aelodau y byddai'n ddefnyddiol gweld modelau parhad gwasanaeth CMB, y gwnaethant eu hystyried a'u gwrthod o blaid yr opsiwn a ffefrir ganddynt i'r Cabinet ei gymeradwyo.

Roedd y Pennaeth Gweithrediadau - Gwasanaethau Cymunedol yn cofio argymhelliad y Pwyllgor Craffu ym mis Gorffennaf 2021 sef nad oedd y Pwyllgor yn cefnogi'r estyniad

dwy flynedd gyda Kier o ystyried yr holl ansicrwydd ac argymhellodd edrych ar gaffael i sicrhau gwerth gorau. Ar y pryd, cyfeiriad y Cabinet oedd parhau gyda'r estyniad, am yr holl resymau a gyflwynwyd yn yr adroddiad. Fodd bynnag, gan nad oedd Kier am ymestyn, argymhelliad y Pwyllgor Craffu i fynd allan ar gyfer caffaeliad tymor byr oedd yr hyn a oedd yn cael ei ddilyn yn awr.

Gwahoddodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor, i ddweud a oedd yn fodlon â'r ymatebion, ac a oedd yn dymuno:

a) Cyfeirio’r penderfyniad yn ôl i’r Cabinet i’w ailystyried, gan nodi’r rhesymau a’r rhesymeg dros y cais;

neu

b) Penderfynu peidio â chyfeirio’r mater yn ôl i’r Cabinet.

Roedd nifer o Aelodau'n parhau'n anfodlon â'r adroddiad a gofynnwyd am ei gyfeirio'n ôl i'r Cabinet gydag argymhellion. Mynegasant fod angen i'r Cabinet fod yn glir eu bod yn ystyried opsiynau eraill ar gyfer y cyfnod o ddwy flynedd a'u bod yn anghyfforddus gyda'r dirprwyo i Swyddogion pan oedd cost prynu'r offer yn ôl yn parhau i fod yn anhysbys.

Dywedodd Aelodau eraill eu bod yn teimlo'n dawel eu meddwl bod yr Aelod Cabinet Cymunedau a Swyddogion yn canolbwyntio ar edrych ar werth gorau a gwasanaeth gorau ac felly'n cefnogi'r adroddiad ond, yn seiliedig ar baragraff 9.5 o'r adroddiad a dderbyniwyd gan y Cabinet a ddywedodd, *'…model gwasanaeth gwastraff y dyfodol, comisiynu cyngor arbenigol os oes angen ac adrodd yn ôl i'r Cabinet ar y model gwasanaeth newydd fel y'i datblygwyd'*, argymhellodd bod unrhyw gyngor arbenigol ac unrhyw brosesau comisiynu yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Craffu i'w hystyried cyn mynd i'r Cabinet.

Amlygodd yr Aelodau bwysigrwydd craffu, ansawdd a chwestiynau manwl a oedd yn atgyfnerthu gwerth craffu cyn gwneud penderfyniadau corfforaethol. Heb ymgysylltu â chraffu, roedd amwysedd, diffyg gwybodaeth a dealltwriaeth a oedd wedi arwain at anfodlonrwydd.

Cynigiwyd y dylai'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol gymryd perchnogaeth o'r contract gwastraff.

Roedd peth pryder hefyd am amseroldeb y broses a'r risg o golli amser gwerthfawr drwy gyfeirio'r mater yn ôl i'r Cabinet.

Eglurodd y Cadeirydd pe bai'r penderfyniad yn cael ei wneud i gyfeirio'r mater yn ôl i'r Cabinet bod rheidrwydd cyfansoddiadol arnynt i ymgynnull o fewn 7 diwrnod gwaith i ailystyried.

PENDERFYNIAD: Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth fanwl gyda Swyddogion a’r Pwyllgor Gwaith, cytunodd y Pwyllgor drwy fwyafrif na fyddai’n cyfeirio’r mater yn ôl i’r Cabinet i’w ystyried ymhellach ond i anfon adroddiad i gyfarfod Cabinet yn y dyfodol yn argymell y canlynol:

a) Bod unrhyw ystyriaeth i'r contract Gwastraff yn y dyfodol yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol ar adeg briodol er mwyn galluogi craffu cyn gwneud penderfyniad a sicrhau mewnbwn effeithiol i unrhyw benderfyniad sydd i ddod. Gofynnodd y Pwyllgor i hyn gynnwys unrhyw gyngor arbenigol a gomisiynir ar gyfer model gwasanaeth gwastraff y dyfodol, cyn cyfeirio at y Cabinet, fel y crybwyllwyd ym mharagraff 9.5 o adroddiad y Cabinet;

b) Bod mesurau wrth gefn yn ogystal ag edrych yn ddyfnach ar opsiynau posibl eraill ar gyfer darparu gwasanaethau gwastraff yn cael eu hystyried a'u trafod yn llawn ac yn agored wrth symud ymlaen;

Bod yr opsiynau eraill a ystyriwyd er mwyn i'r Cabinet allu dod i'r penderfyniad presennol ar gyfer contract gwastraff tymor byr o 2024 i 2026, yn cael eu cyhoeddi i'r cyhoedd er mwyn sicrhau didwylledd a thryloywder llawn.

6. ALLDRO CYLLIDEB REFENIW 2021-22

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid yr adroddiad gyda'r bwriad o roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Pwyllgor am berfformiad ariannol refeniw’r Cyngor am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid a'i thimau am yr adroddiad cynhwysfawr a gwahoddodd gwestiynau neu gyfraniadau'r Aelodau.

Nododd yr aelodau yr effaith a gafodd Covid-19 ar y gyllideb, yn gadarnhaol ac yn negyddol, a holwyd pa mor hawdd oedd hi i weithio gyda Llywodraeth Cymru ynghylch cyllid ychwanegol a pha mor effeithiol y bu.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid mai'r flwyddyn ariannol ddiwethaf oedd yr ail o'r gronfa caledi ac felly bod y systemau a'r prosesau sydd mewn lle i hawlio'r arian eisoes wedi hen sefydlu erbyn adeg yr hawliadau llynedd. Ar gyfer 2021-22, hawliwyd y cynnydd mewn gwariant yn fisol a hawliwyd incwm a gollwyd bob chwarter i helpu gyda materion llif arian. Roedd y broses dalu hefyd wedi bod yn gyflymach yn ystod 2021-22 nag yn y flwyddyn flaenorol wrth i Gynghorau addasu i'r system.

Dywedodd fod Llywodraeth Cymru yn craffu ar hawliadau ond pe bai unrhyw ymholiadau'n codi, byddent yn cael eu hanfon yn ôl i gael eglurhad a bod arian yn cael ei ryddhau cyn gynted â phosibl ar ôl yr eglurhad. Yn ogystal, os oedd un elfen o hawliad yn cael ei chraffu, roedd elfennau eraill yr hawliad yn cael eu talu yn y cyfamser ac nid oeddent, felly, yn effeithio'r hawliad cyfan. Roedd y broses wedi gwella wrth i gynefindra â'r systemau wella.

Gofynnodd yr Aelodau am gefndir ynglŷn a faint o arian cyfalaf wrth gefn a ddelir a chadarnhad pam fod cronfeydd mor fawr yn cael eu dal.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid fod y cronfeydd wrth gefn wedi codi ar ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf wrth i swm sylweddol o arian ddod drwodd ar ddiwedd y flwyddyn nad oedd modd ei wario'n effeithiol ac effeithlon felly roedd wedi'i gario ymlaen. Cadarnhaodd fod hynny'n un peth y gellid ailddefnyddio cronfeydd wrth gefn ar ei gyfer.

Yn ogystal, roedd swm mawr wedi'i symud i'r cronfeydd cyfalaf wrth gefn i ychwanegu at yr arian gan Lywodraeth Cymru. Amlygodd, yn enwedig yn y rhaglen gyfalaf, gostau cynyddol wrth i gostau deunyddiau godi ac wrth i gadwyni cyflenwi gael trafferth, a oedd wedi effeithio ar gostau. Yn ogystal, roedd y costau sy’n gysylltiedig ag agenda datgarboneiddio 2030 a rhaglen moderneiddio ysgolion Band B yn gweld costau uwch felly roedd yn ddoeth rhoi rhywfaint o arian o’r neilltu i sicrhau y gellid anrhydeddu’r ymrwymiad i’r rhaglen honno. Dywedodd fod rhywfaint o wariant ar gynlluniau sy'n ymwneud â phriffyrdd a meysydd chwarae wedi'i gymeradwyo yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor a chadarnhaodd fod rhywfaint o'r arian wrth gefn i helpu i ariannu rhai prosiectau

seilwaith mawr boed yn cael eu hariannu'n unigol neu gyda rhywfaint o arian cyfatebol gan Lywodraeth Cymru.

Mewn perthynas â chostau yswiriant, nododd yr Aelodau fod y gyllideb net a osodwyd ar £1.3 miliwn wedi codi i alldro gwirioneddol o £2.84m a holwyd natur ac achos y costau, pa un ai oedd llawer o hawliadau bach neu nifer o hawliadau mawr ac ai mewnol neu allanol oeddynt.

Eglurodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid bod gostyngiad wedi bod yn y blynyddoedd blaenorol a blwyddyn gyntaf y pandemig ond gyda chynnydd sylweddol y llynedd. Mae'n bosibl bod dwy flynedd o hawliadau wedi'u gweinyddu yn y flwyddyn a arweiniodd at alw yn y system. Cadarnhaodd y byddai'r sefyllfa'n cael ei dadansoddi a'i monitro'n ofalus i ddeall a oedd yn mynd i fod yn sefyllfa hirdymor y byddai angen ei lliniaru neu a oedd y galw yn y system wedi lleddfu.

Gofynnodd yr Aelodau i wybodaeth gael ei darparu i'r Pwyllgor ar natur yr hawliadau yn dilyn y dadansoddiad.

Nododd yr Aelodau fod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol blaenorol wedi cael gwybod y byddai cronfa o £1,000,000 i dalu am y taliadau na ddisgwylir iddynt gael eu cynnwys drwy gyllid Llywodraeth Cymru o ganlyniad i'r pandemig. Gyda Covid-19 ar gynnydd eto, holodd y Pwyllgor a fyddai unrhyw arian arall yn cael ei gadw o fewn Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr i ddarparu cymorth i gyfarwyddiaethau eraill pe bai angen.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid bod dyraniad cyllideb sylfaenol o £1,000,000 o fewn y gyllideb eleni oherwydd daeth yn hysbys bod y gronfa caledi yn mynd i ddod i ben yn y flwyddyn ariannol gyfredol. Dim ond mewn perthynas ag offer amddiffyn personol yr oedd ymrwymiad yn ei erbyn. Cadarnhaodd fod rhai ymrwymiadau tymor byr eraill yn erbyn y gronfa wrth gefn a bod y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Chefnogi Teuluoedd yn gwneud llawer o waith mewn ysgolion i sicrhau monitro a chefnogaeth. Fodd bynnag, roedd y galw ar y gyllideb sylfaenol yn isel.

Holodd yr Aelodau ynghylch natur y gorwariant a'r cynnydd sylweddol mewn costau cyfreithiol gofal plant ac a oedd angen ei ystyried ar gyfer dyraniad yn y dyfodol.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid fod y pwysau o ganlyniad i gynnydd mewn achosion gofal plant cymhleth lle bu'n rhaid i lawer o waith gael ei roi ar gontract allanol i Gwnselydd. Cadarnhaodd ei fod yn cael ei fonitro'n agos.

Amlygodd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar gyfrifoldebau'r awdurdod fel Rhieni Corfforaethol a bod y cynnydd oherwydd nifer y plant mewn achosion llys a oedd angen mewnbwn arbenigol. Dywedodd ei bod yn disgwyl i'r gost gynyddu oherwydd y cynnydd sylweddol yn anghenion cymhleth pobl ifanc. Fodd bynnag, roedd am roi sicrwydd i'r Aelodau y byddai'r Cyngor yn gwneud ei orau glas i gefnogi'r bobl ifanc hynny.

Holodd yr Aelodau, gan gyfeirio at baragraff 4.3.1 o'r adroddiad yn ymwneud â'r ymarfer ail-dendro, a oedd cynnydd mawr pellach mewn contractau tacsis a bysiau mini yn cael ei ragweld.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Addysg a Chymorth i Deuluoedd fod pwysau chwyddiant yn mynd i fod yn anodd eu rheoli. Ar y cyd â Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru, roeddent yn gweithio'n agos gyda darparwyr trafnidiaeth ynghylch y pwysau gyda'r cynnydd mewn costau tanwydd i gynnal y gofyniad statudol i

ddarparu cludiant o'r cartref i'r ysgol ar gyfer dysgwyr cymwys. Fodd bynnag, rhagwelwyd cynnydd sylweddol ac roedd y contract newydd yn debygol o ddenu cynnydd pellach a oedd yn mynd i fod yn heriol.

Gofynnodd yr Aelodau ynghylch y bwriad i gyflwyno adolygiad Llywodraeth Cymru ar deithio dysgwyr, beth oedd parodrwydd yr awdurdod ar gyfer derbyn yr adroddiad, gan ystyried ei gynnwys a sut roedd yr awdurdod yn mynd i ymateb.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Addysg a Chymorth i Deuluoedd fod yr Arweinydd wedi ysgrifennu at yr Aelod Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg i ofyn am ddiweddariad. Dywedodd fod polisi cludiant o'r cartref i'r ysgol Pen-y-bont ar Ogwr wedi dod yn agosach at ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru dros y pum mlynedd diwethaf. Tynnodd sylw at y berthynas dda a ddatblygwyd dros y ddwy flynedd ddiwethaf gyda Llywodraeth Cymru a’r gobaith oedd, pe bai newidiadau sylweddol yn dilyn yr adroddiad, y byddai Llywodraeth Cymru yn rhannu’r cynigion gyda Chyfarwyddwyr yn gynnar a chyn cyhoeddi.

Gofynnodd yr aelodau a oedd arian adran 106 wedi'i gynnwys yn y ffigurau wrth gefn ar gyfer addysg neu a oedd yn cael ei gadw yn rhywle arall gan gydnabod ei fod yn swm sylweddol o arian.

Eglurodd y Dirprwy Bennaeth Cyllid eu bod yn gronfeydd refeniw wrth gefn a oedd wedi'u sefydlu a bod cyllid adran 106 ar wahân. Cawsant eu cynnwys yn y cyfrifon ac yn y datganiad o gyfrifon ond ni chawsant eu dal yn y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.

Holodd yr aelodau sut y byddent yn gwybod faint o arian oedd yn cael ei ddal o gyllid adran 106 ar gyfer pob Cyfarwyddiaeth.

Cadarnhaodd y Dirprwy Bennaeth Cyllid nad oedd yr arian yn cael ei dderbyn fesul Cyfarwyddiaeth gan y gallent fod ar gyfer maes penodol i ddarparu ystod eang o wasanaethau megis maes chwarae, mannau chwarae, ysgol, ac ati. Cadarnhaodd y byddai mwy o fanylion yn y datganiad o gyfrifon ac y byddai'r cyfrifon drafft yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Gorffennaf ond yn y cyfamser, gallai ddod â rhai manylion ynghyd.

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod pryderon ynghylch chwyddiant costau cludiant o'r cartref i'r ysgol a meysydd eraill o bwysau chwyddiannol yn cael eu codi gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) ac y gellid eu hadlewyrchu wrth bennu cyllideb Llywodraeth Cymru.

Mewn perthynas â chyllid adran 106, dywedodd yr Aelod Cabinet dros Gymunedau fod y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn arfer derbyn adroddiadau rheolaidd gyda'r rhestr o holl gytundebau 106. Cydnabu ei bod yn bwysig i bob Aelod weld a bod yn ymwybodol o ba gytundebau oedd o fewn eu wardiau, y nifer a'r amserlenni ar gyfer eu gweithredu.

Nododd yr aelodau y chwyddiant enfawr mewn olew, disel a phetrol a gofynnwyd pa sgyrsiau oedd yn cael eu cynnal ar lefel WLGA a chydag undebau llafur ynghylch y 45c y filltir a staff cynorthwyol.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd a’r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar mai hi oedd llefarydd WLGA ar y gweithlu a bod costau tanwydd a chostau byw ar yr agenda ar gyfer cyfarfod nesaf Cyd-gyngor Cymru a sicrhaodd yr Aelodau bod y trafodaethau rhain yn cael eu cynnal.

Yn ogystal, tynnodd sylw at y ffaith bod Pen-y-bont ar Ogwr eisoes yn talu staff ar gyfradd o 47 ceiniog y filltir uwchlaw cyfradd HMRC o 45 ceiniog y filltir. Roedd angen i'r

Cyngor fod yn glir ynghylch sut yr oedd am gynnal y sefyllfa a nododd fod angen i HMRC a Llywodraeth San Steffan hefyd weithredu ar y mater.

Mewn perthynas ag asesiadau traffig cyffordd, holodd yr Aelodau a fyddai digon o asesiadau ond nid y gallu i weithredu eu canfyddiadau oherwydd diffyg cyllid, boed yn refeniw neu'n gyfalaf.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau fod dyraniad eleni o £3.5 miliwn yn y rhaglen priffyrdd i fynd i'r afael â nifer o faterion, gan gynnwys ailarwynebu ffyrdd, gwella cyffyrdd a goleuadau stryd. Dywedodd fod gan y Cabinet uchelgais y byddai'n rhan o raglen gyfalaf dreigl ac felly, na fyddai unrhyw asesiadau'n cael eu gwneud yn ofer; byddai'r prosiectau'n cael eu gweithredu ond ar sail blaenoriaeth.

Mewn perthynas ag Atodiad 3, Monitro Cyllideb Refeniw – Alldro Diwedd Blwyddyn, nododd yr Aelodau y byddai pwysau chwyddiant sylweddol yn effeithio ar y gwasanaethau a ddarperir a gofynnwyd a oedd disgwyl unrhyw gefnogaeth bellach gan lywodraeth ganolog.

Yn ogystal, nododd yr Aelodau y gyfres o ymrwymiadau maniffesto a wnaed gan y weithrediaeth ac y gallai pwysau chwyddiant effeithio'n sylweddol ar gyflawni'r rheini. Gofynnodd yr Aelodau a oedd hyder y byddai'r Cabinet yn cyflawni ymrwymiadau'r maniffesto ar amser ac o fewn y gyllideb; yn arbennig, a allent gyflawni eu hymrwymiad i ddarparu prydau ysgol am ddim i bob plentyn ysgol gynradd erbyn mis Medi 2023.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid fod y codiad cymorth refeniw wedi bod yn un unwaith ac am byth ac yn gwbl ddigynsail. Cydnabu'r pwysau chwyddiant a wynebwyd ac ailadroddodd y trafodaethau a oedd yn cael eu cynnal gyda WLGA a Llywodraeth Cymru ar eu heffaith debygol a cheisio ei fesur ledled Cymru. Roedd yn ansicr a fyddai rhagor o arian yn dod, ond roedd data'n cael ei goladu i geisio dylanwadu ar sefyllfa'r setliad ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Roedd yr Arweinydd yn cydnabod bod cyflwyno prydau ysgol am ddim yn faniffesto allweddol i’r weithrediaeth a Llywodraeth Cymru a chadarnhaodd fod Llywodraeth Cymru wedi bod yn glir y byddent yn darparu’r cyllid i’w ddarparu ac ar gyfer cyflwyno’r terfyn 20mya ar ffyrdd. Cydnabu'r anawsterau a wynebwyd oherwydd y cynnydd mewn chwyddiant a'r argyfwng costau byw a oedd yn ei gwneud yn anodd rhagfynegi cyllid ond cadarnhaodd fod Llywodraeth y DU hefyd yn cael ei lobïo am gyllid.

Amlygodd yr Aelod Cabinet dros Addysg bwysigrwydd ymrwymiad y maniffesto gan na ddylai unrhyw blentyn fod yn llwglyd wrth fynychu’r ysgol. Cadarnhaodd y byddai'r fenter yn dechrau ym mis Medi gyda dull graddol o weithredu gyda disgwyl i bob plentyn ysgol fabanod gael prydau ysgol am ddim erbyn 2023. Roedd yn cydnabod bod y gyfradd chwyddiant afresymol wedi golygu bod oedi bach i blant ysgol iau ond roedd disgwyl prydau ysgol am ddim i bob plentyn oed ysgol gynradd erbyn 2024 yn unol â tharged Llywodraeth Cymru.

Parhaodd fod tua phum ysgol yn y fwrdeistref a oedd angen offer a lle ychwanegol i allu darparu'r prydau ysgol am ddim ac roedd y costau cynyddol a'r oedi wrth gynllunio yn golygu y byddai oedi hyd at 2024 ond tynnodd sylw at y ffaith ei fod o fewn darpariaeth tymor y Cyngor hwn.

Cydnabu’r Aelod Cabinet dros Gymunedau’r oedi wrth gyflawni ymrwymiad y maniffesto i gynyddu buddsoddiad mewn priffyrdd oherwydd cynllunio ac adnoddau ond cadarnhaodd y byddai hynny a’r buddsoddiad hir-ddisgwyliedig mewn mannau chwarae i’w gweld yn fuan.

Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet Adnoddau fod 121 o ymrwymiadau maniffesto ar wahanol gamau o'u gwireddu. Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, dywedodd fod prosiect gwerth £2 filiwn i baratoi'r ceginau i gyflwyno'r fenter. Roedd yn sicr y gallai ddechrau ym mis Medi 2023 ac roedd yn gobeithio y byddai Llywodraeth Cymru yn helpu i wireddu'r uchelgais. Parhaodd ei fod yn fenter wych a fyddai'n cael ei chyflwyno cyn gynted â phosibl.

PENDERFYNWYD:

Nododd y Pwyllgor yr adroddiad a gofynnodd am y canlynol:

- Darparu gwybodaeth am natur a ffynhonnell hawliadau yswiriant yn 2021-22.

Darparu gwybodaeth yn dangos y Cronfeydd Refeniw Wrth Gefn a ddelir gan y Gyfarwyddiaeth.

7. ENWEBIAD HYRWYDDWR RHIANTA CORFFORAETHOL

Cyflwynodd y Swyddog Craffu yr adroddiad, a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor enwebu un Aelod fel ei Hyrwyddwr Rhianta Corfforaethol i gynrychioli'r Pwyllgor fel gwahoddiad i gyfarfodydd Pwyllgor Rhianta Corfforaethol y Cabinet.

Gwahoddodd y Cadeirydd enwebiadau, ac yn dilyn hynny

PENDERFYNWYD: Enwebu'r Cynghorydd Amanda Williams i gynrychioli'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol fel Aelod Gwahoddedig i gyfarfodydd Rhianta Corfforaethol Pwyllgor y Cabinet.

8. ENWEBIAD I BANEL CRAFFU'R BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS

Cyflwynodd y Swyddog Craffu yr adroddiad, a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor enwebu tri Aelod i eistedd ar Banel Craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Gwahoddodd y Cadeirydd enwebiadau, ac yn dilyn hynny:

PENDERFYNWYD: Bod y Cynghorwyr Simon Griffiths a Freya Bletsoe yn cael eu henwebu gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol i eistedd ar Banel Craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a cheisio un enwebiad pellach yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol ym mis Gorffennaf.

9. DIWEDDARIAD AR Y BLAENRAGLEN WAITH

Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu'r Blaenraglen Waith Cychwynnol amlinellol ddrafft arfaethedig yn Atodiad A i'r Pwyllgor i'w drafod a'i ystyried, gan ofyn am unrhyw wybodaeth benodol a nodwyd gan y Pwyllgor i'w chynnwys yn yr eitemau ar gyfer y ddau gyfarfod nesaf, gan gynnwys y gwahoddedigion oedd yn dymuno bod yn bresennol, a gofynnodd i'r Pwyllgor nodi unrhyw eitemau pellach i'w hystyried ar y Blaenraglen Waith o ystyried y meini prawf dethol ym mharagraff 4.6 a gofynnodd i'r Pwyllgor nodi y byddai'r Blaenraglen Waith ar gyfer y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Pwnc yn cael ei hadrodd i gyfarfod o COSC, yn dilyn ystyriaeth yng nghylch mis Gorffennaf o gyfarfodydd SOSC.

Cyfeiriodd yr Aelodau at yr Asesiad Perfformiad Corfforaethol a oedd yn nodi nifer o risgiau corfforaethol, megis materion gweithlu, deddfwriaeth newydd yn gosod gofynion

ar wasanaethau, pwysau chwyddiant ar ddarparu gwasanaethau a materion caffael yn y dyfodol a materion rheoli asedau. Cynigiwyd y dylid ailymweld â'r Flaenraglen Waith yn dilyn craffu ar yr Adroddiad Perfformiad yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ym mis Gorffennaf.

PENDERFYNWYD: Bu'r Pwyllgor yn ystyried a chymeradwyo'r Blaenraglen Waith ddrafft, yn amodol ar ystyried unrhyw bynciau posibl a allai gael eu cynnig yn dilyn craffu ar Berfformiad y Cyngor yn erbyn ei ymrwymiadau ar gyfer adroddiad Blwyddyn 2021-22 yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Gorffennaf.

10. EITEMAU BRYS

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 12:45